**Adroddiad Blynyddol 2015/16 Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Adroddiad Cyngor Dinas Caerdydd yn unol â'i ddyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

| **Y camau a gymerwyd i hyrwyddo teithio llesol** |
| --- |
| - Cyhoeddi a dosbarthu Map Cerdded a Beicio yng Nghaerdydd<br>- Rhoi gwybodaeth cerdded a beicio ar wefan Cadwch Gaerdydd i Symud<br>- Rhoi fframiau beiciau am ddim i sefydliadau trwy'r cynllun Parcio'ch Beic<br>- Hyfforddiant beicio am ddim ar gyfer oedolion sy'n byw, gweithio neu'n astudio yng Nghaerdydd<br>- Hyfforddiant beicio mewn ysgolion<br>- Hyfforddiant beicio i grwpiau ieuenctid<br>- Hyfforddiant beicio yn ystod gwyliau'r haf<br>- Hyfforddiant beicio ar gyfer yr heddlu<br>- Hyfforddiant teithio annibynnol ar gyfer plant ysgol ag anghenion arbennig ac oedolion sy'n agored i niwed<br>- Cynorthwyo sefydlu bysus cerdded yn Ysgol y Wern ac Ysgol Gynradd Severn Road<br>- Cynnig gwybodaeth teithio ar wefan Un Blaned<br>- Digwyddiadau ysgol Un Blaned<br>- Cynhaliwyd Gŵyl Gerdded Flynyddol gan bartneriaeth Awyr Agored Caerdydd ym mis Mai 2015 a oedd yn cyd-fynd â'r *Big Welsh Walk,* Wythnos Cerdded i'r Ysgol a Gŵyl Gerdded Bro Morgannwg<br>- Cyhoeddi erthygl dudalen lawn '*Putting Your Best Foot Forward*' yn Big Issue mis Mawrth.<br>- Cyhoeddi erthygl ddwy dudalen lawn, *'Year of Adventure'* a *'Get Outdoors & Explore'* yn rhifyn y gwanwyn y cylchgrawn i fyfyrwyr, *Around Town* |
| **Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig** |
| - Creu cynlluniau teithio llesol:<br>    o Llwybr Beic 5 Heol Penarth – cyfleuster aml-ddefnydd oddi ar y ffordd<br>    o Llwybr Beic 9 Colum Road – lonydd beiciau ar Colum Road a gwella'r gyffordd rhwng Colum Road a Heol y Gogledd<br>    o Cam 1 Llwybr Beiciau o Gaerdydd i Gasnewydd – creu ffordd oddi ar y ffordd fawr o Cypress Drive i Greenway Road<br>    o Gwella croesfan Twcan a throedffordd Llwybr Beiciau 6 yn Heol Ddwyreiniol y Bont-Faen<br>    o Gwelliannau arafu traffig a chroesfan i gerddwyr ar gyfer y llwybr ar y ffordd i feiciau Llwybr Beic 50 Ninian Park Road<br>    o Croesfan Heol y Porth |

| |
|---|
| <ul><li>Troedffordd Shirenewton</li><li>Gwelliannau i gerddwyr yn Grand Avenue</li><li>Gwelliannau i gerddwyr a beicwyr yn Jasmine Centre</li><li>Gwelliannau i gerddwyr yn Tyndall Street</li><li>Llwybrau Diogel mewn Cymunedau – Sblot Cam 1</li><li>Llwybrau Diogel mewn Cymunedau - Pentwyn</li><li>Gwelliannau i gerddwyr yn Heol yr Orsaf</li><li>Gwelliannau croesfan i gerddwyr yn Heol y Gogledd/Heol y Goron</li><li>Gwelliannau croesfan i gerddwyr yng Nghylchfan Rhydypennau</li><li>Cerdded trwy Gymdogaethau'r Dwyrain Cam 1, yn cynnwys croesfan i gerddwyr yn Llaneirwg Way a mannau croesi botymog isel mewn amryw o lefydd</li><li>Gwelliannau croesfan i gerddwyr yn Heol y Gadeirlan</li><li>Gosod 43 man croesi botymog isel mewn amryw o leoliadau yn y ddinas</li><li>Rhoi cyfleusterau croesi gwell ar gyfer cerddwyr a beicwyr fel rhan o gynllun yn Heol Casnewydd/Heol y Plwca</li><li>Rhoi cyfleusterau croesi gwell ar gyfer cerddwyr a beicwyr fel rhan o Gam 1 Heol Casnewydd/Fitzalan Place</li><li>Rhoi cyfleusterau croesi gwell a llwybrau beic cyd-ddefnydd fel rhan o gynllun A469 Heol Caerffili</li><li>Rhoi cyfleusterau beic fel rhan o gynllun Pont Windsor Road</li><li>Gwelliannau i gerddwyr fel rhan o gynllun Heol Pontprennau</li><li>Gwelliannau cyffordd Clare Road / Heol Penarth - croesfannau newydd â goleuadau i gerddwyr yn ogystal â fframiau ar gyfer beiciau yn Hyb Grangetown</li><li>Gyli ffordd Heol Orllewinol Y Bont-Faen / Narbeth Road – golau, camerâu cylch cyfyng a gwella wyneb y ffordd</li><li>Kimberley Terrace, Llanisien – Creu ardal gerdded fechan gyda lle i eistedd a fframiau beiciau mewn safle canolog yn y ganolfan siopa leol.</li><li>Siopau Wentloog Road, Tredelerch - Croesfan newydd i gerddwyr a fframiau beiciau</li><li>Parc Coed y Nant, Llanedern – Gosod goleuadau ar y llwybrau cerdded trwy'r parc</li><li>Coed y Gores – Gosod rheiliau er mwyn atal beicwyr modur rhag defnyddio llwybrau cerdded</li></ul>- Pennu cynlluniau teithio llesol:<ul><li>Llwybr Beic 6 – Pont droed a beic dros Afon Elái</li><li>Llwybr Beic 50 Cam 2 – Cyfleuster oddi ar y ffordd yn Leckwith Road</li><li>Llwybrau Diogel mewn Cymunedau – Sblot Cam 2</li><li>Cerdded trwy Gymdogaethau'r Dwyrain Cam 2 – gwelliannau croesfan i gerddwyr yn Heol Casnewydd a Countisbury Avenue</li><li>Cerdded trwy Gymunedau'r Gorllewin - croesfan i gerddwyr yn Lôn Caerau</li></ul> |
| **Costau creu llwybrau teithio llesol a chyfleusterau newydd a gwella'r llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig yn ystod y flwyddyn** |

| **ariannol lawn ddiwethaf:** |
| --- |
| £3,593,898 |